

Meddwl am fynd yn **ORGANIG?**

Llan: Jeremy Moore

Dyma'r arweiniad cam-wrth-gam



Cyllidir y Ganolfan gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r EAGGF. Fe'i lleolir ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth ac fe'i rheolir ar y cyd gan ADAS, Canolfan Ymchwil Elm Farm, Sefydliad Ymchwil Tir Glas a'r Amgylchedd (IGER), Sefydliad y Gwyddorau Gwledig (PCA) a'r Soil Association.

Cyda'n gilydd fe allwn ni wneud gwahaniaeth



Canolfan Organig Cymru
Organic Centre Wales

Canolfan Ffermio Organig Cymru
Sefydliad Y Gwyddorau Gwledig
Prifysgol Cymru Aberystwyth
Ceredigion SY23 3AL
Ffôn: 01970 622248
Ffacs: 01970 622238
Ebost: organic@aber.ac.uk
www.organic.aber.ac.uk

Llinell Gymorth
Ffôn: 01970 622100
Ebost: organic-helpline@aber.ac.uk

Fel rhan o ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i ffermio organig, y mae cymorth ariannol a thechnegol ar gael i bob ffermwr sy'n trosglwyddo i systemau organig. Mae ffermio organig yn llesol i gefn gwlad, gyda'i fanteision i fioamrywiaeth, lles anifeiliaid, ansawdd dŵr, iechyd cyhoeddus ac economïau lleol. Mae'r farchnad i gynnyrch organig yn y DU yn cynyddu ac, ar hyn o bryd, mae'n rhaid mewnforio cyfran helaeth ohono. Mae'r daflen hon yn cyflwyno'r cyngor a'r wybodaeth sydd ar gael i'ch helpu i benderfynu a ydych am ddewis cynhyrchu organig ai peidio, ac i'ch cefnogi drwy gydol y broses drosglwyddo.

I Ffoniwch y Gwasanaeth Gwybodaeth Trosi Organig (OCIS Cymru) ar linell gymorth Canolfan Organig Cymru – 01970 622100

Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth Trosglwyddo Organig yn wasanaeth rhad ac am ddim a noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae'n darparu pecyn gwybodaeth i ffermwyr a thyfwyr a hyd at ddau ymweliad â'r fferm gan ymgynhorydd profiadol o ADAS neu'r Gwasanaeth Cynghori ar Ffermio Organig.

Ar ôl yr ymweliadau hyn, efallai y byddwch yn barod i benderfynu a ddylech fynd ymlaen i drosglwyddo'n organig ai peidio. Os y penderfynwch o blaid hynny, efallai y byddwch eisiau rhagor o gyngor a chymorth wrth gynllunio'r trosglwyddo gyda Cyswllt Ffermio (gweler cam 2, isod).

GWASANAETH

GWYBODAETH

TROSIADAU

Organig

Llinell Gymorth

Ffôn: 01970 622100

Ebost: organic-helpline@aber.ac.uk

Gall galwadau gael eu monitro er mwyn hyfforddiant.

Ariannir Canolfan Organig Cymru gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddosbarthu gwybodaeth am fwyd a ffermio organig yng Nghymru



Gweithio Ynghyd



2 Ceisiwch am wybodaeth pellach

Cysylltwch â Cyswllt Ffermio i gael rhagor o gymorth technegol am drosglwyddo ynghyd â chyngor busnes. Gallwch ddefnyddio'r Cynllun Datblygu Busnes Fferm (FBDP), diwrnod ychwanegol o gymorth technegol a'r Arolwg o Gyfleoedd Amgylcheddol (EOR), i lunio cynllun trosglwyddo manwl. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Chanolfan Wasanaeth Cyswllt Ffermio ar 08456 000813. Mae gwybodaeth dechnegol am drin gwair, porthiant a thail ar gael i grwpiau bychain o ffermwyr drwy'r Ganolfa Datblygu Porfeydd yn IGER. Cysylltwch â Heather McCalman ar 01970 823026.



Mae ymgynghorwyr organig, a achredwyd gan Ganolfan Organig Cymru, ar gael i ddarparu cyngor Cyswllt Ffermio. I gael rhagor o wybodaeth am y gwasanaethau cyngori sydd ar gael i ffermwyr organig, cysylltwch â Tony Little (01970 622248).

3 Ymwelwch â ffermydd organig a siaradwch â ffermwyr organig eraill

Gallwch gwrdd â ffermwyr organig a'r rheini sydd yn y broses o drosglwyddo, mewn grwpiau trafod organig. Mae'r grwpiau hyn yn gysylltiedig ag ystod eang o weithgaredd gan gynnwys ymweliadau â ffermydd, seminarau, cyfarfodydd gyda'r nos, prosiectau datblygu bychain ac yn y blaen. Mae aelodaeth yn rhad ac am ddim ac yn rhoi cyfle i ffermwyr sydd â diddordebau cyffelyb i lunio eu rhaglen weithgaredd eu hunain gyda chymorth ariannol gan Cyswllt Ffermio.

Mae Canolfan Organig Cymru hefyd yn rheoli Rhwydwaith o Ffermydd Arddangos, sy'n cynrychioli'r prif sectorau, ac yn cwmpasu'r mentrau allweddol yng Nghymru a phob agwedd ar ffermio organig. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Philip Jones ar 01970 622248. Mae Canolfan Ymchwil *Elm Farm* (01488 658298) yn rhedeg rhwydwaith cyffelyb yn Lloegr, ac y mae gan y *Soil Association* (0117 929 0661) rwydwaith o ffermydd organig sy'n agored i'r cyhoedd yn Lloegr a Chymru.



4 Darllenwch amdani

Mae nifer o o gyhoeddiadau ar gael gan Ganolfan Organig Cymru, gan gynnwys canllawiau technegol a ffeithlenni. Mae gwybodaeth am bob agwedd ar fwyd a ffermio hefyd yn cael ei chyhoeddi ar wefan y Ganolfan yn www.organic.aber.ac.uk, ac y mae dau fwletin e-bost rheolaidd ar gael yn rhad ac am ddim (gweler y wefan am fanylion). Mae'r *Soil Association* yn cyhoeddi cylchgrawn chwarterol, sef *Organic Farming*, sy'n cynnwys eitemau technegol a newyddion. Mae *Organic Farmers and Growers* yn darparu pecyn gwybodaeth i ffermwyr ynghyd â chylchlythyrau rheolaidd. Mae Canolfan Ymchwil *Elm Farm* yn cyhoeddi Bwletin technegol bob deufis.

5 Mynychu cyrsiau hyfforddi, cynadleddau a seminarau

Gall Canolfan Organig Cymru drefnu cyrsiau hyfforddi yn ôl y galw, a gall Lantra dalu 50% o'r costau i ffermwyr cyhyd â'u bod wedi cwblhau Gwiriad Sgiliau Cyswllt Ffermio. Mae'r *Soil Association* a Chanolfan Ymchwil *Elm Farm* hefyd yn cynnal digwyddiadau technegol ar ffermydd ledled Prydain.



Ar ben hynny, y mae Canolfan Organig Cymru yn trefnu cynhadledd flynyddol, sy'n canolbwyntio ar faterion gwleidyddol, datblygiadol a thechnegol allweddol i gynhyrchwyr organig yng Nghymru. Mae'r Ganolfan hefyd yn cyd-drefnu arddangosfa organig yn yr Ardal Gofal Cefn Gwlad yn Sioe Frenhinol Cymru ac yn mynychu digwyddiadau pwysig megis Ffair Aeaf Sioe Frenhinol Cymru a sioeau sirol.

6 Cael gwybod sut i farchnata eich cynnyrch

Mae llawer o gyfleoedd i farchnata cynnyrch organig Cymreig, boed hynny drwy fentrau cydweithredol ffermwyr, archfarchnadoedd, gwerthiannau uniongyrchol i'r cyhoedd ac yn y blaen. Mae Canolfan Organig Cymru yn gyfrifol am wasanaeth gwybodaeth am farchnadoedd organig o dan Cyswllt Ffermio, gyda gwybodaeth ar y wefan ynghyd ag e-fwletin rheolaidd. Mae'r Isadran Datblygu Bwyd a'r Farchnad Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn cynnig cymorth ar gyfer datblygu marchnata a phrosesu organig – cysylltwch â Chanolfan Organig Cymru.

7 Sicrhewch fod eich fferm yn cael ei hardystio



Mae isafswm safonau organig wedi eu gosod gan yr Undeb Ewropeaidd a'u diffinio gan DEFRA o dan arweiniad y Pwyllgor Ymgynghorol ar Safonau Organig (ACOS). Fe'u gweithredir ar lefel y fferm gan nifer o gyrff ardystio, sy'n cael eu rhestru isod. Er mwyn gwerthu eich cynnyrch fel cynnyrch organig, mae'n rhaid i chi gofrestru gydag un o'r cyrff hyn.

<i>Symbol</i>	<i>Cod</i>	Manylion cysylltu
	UK 15	Ascisco Ltd Bristol House, 40-56 Victoria Street, Bristol, BS1 6BY T: 0117 914 2406 www.soilassociation.org/certification
	UK6	The Biodynamic Agricultural Association, Demeter Scheme Coordinator, 17 Inverleith Place, Edinburgh EH3 5QE T: 0131 624 3921 www.anth.org.uk/biodynamic
	UK10	CMi Certification Ltd, Long Hanborough, Oxford OX29 8LH T: 01993 885610 www.cmi-plc.com
	UK2	Organic Farmers & Growers Ltd, Elim Centre, Lancaster Road, Shrewsbury, Shropshire SY1 3LE 01743 440512 www.organicfarmers.uk.com
	UK4	Organic Food Federation, 31 Turbine Way, Eco Tech Business Park, Swaffham, Norfolk, PE37 7XD T: 01760 720444 www.orgfoodfed.com
	UK13	Quality Welsh Food Certification Ltd, PO Box 8, Gorseland, Ffordd y Gogledd, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2WB. T: 01970 636688 F: 01970 624049
	UK5	Soil Association Certification Ltd, Bristol House, 40-56 Victoria Street, Bristol, BS1 6BY T: 0117 914 2406 www.soilassociation.org

8

Cofrestrwch â Chynllun Ffermio Organig Cymru

Mae grantiau ar gael i helpu gyda chostau'r cyfnod trosglwyddo drwy'r Cynllun Ffermio Organig ar gyfer Cymru. Mae'r taliadau dros y 5 mlynedd cyntaf yn £480/ha ar gyfer tir sy'n derbyn taliadau arwynebedd â'r chnydau parhaol, £390/ha am dir caeëdig arall, a £65/ha am dir sydd heb ei gau neu borfa coedwig. Ar ôl 5 mlynedd, ceir opsiwn i ymestyn am 5 mlynedd arall am £35/ha am dir caeëdig a £10/ha am dir sydd heb ei gau neu borfa coedwig. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Llinell Gymorth Canolfan Organig Cymru (01970 622100) neu ffoniwch eich swyddfa ranbarthol o'r Adran Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad yng Nghaernarfon (01286 674144), Llandrindod (01597 823777) neu Caerfyrddin (01267 225300).

Canolfan Organig Cymru

Cyhoeddir y llyfryn hwn gan Ganolfan Organig Cymru, sy'n bartneriaeth rhwng ADAS Cymru, IGER, Canolfan Ymchwil Elm Farm, Sefydliad y Gwyddorau Gwledig (PCA) a'r *Soil Association*. Cysylltwch â'r Ganolfan am wybodaeth ynghylch unrhyw agwedd ar ffermio organig.

OCIS a llinell gymorth dechnegol 01970 622100

Ymholiadau cyffredinol 01970 622248



Nic Lampkin
Cyfarwyddwr y Ganolfan



Tony Little
Cydllynydd Gwasanaethau Cynghori



Philip Jones
Swyddog y Llinell Gymorth



David Frost
Swyddog Strategaeth Farchnata



Carolyn Wacher
Swyddog Addysg a Hyfforddiant



Neil Pearson
Rheolwr y Ganolfan



Sue Fowler
Swyddog Meincnodi a Pholisi



Jane Powell
Swyddog Gwybodaeth



Pat Elkins
Gweinyddydd



Sally Williamson
Swyddog Gwybodaeth Fasnachol

Adolygwyd Chwefror 2006

Ni all Canolfan Organig Cymru na'i phartneriaid dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am ganiyniadau unrhyw gamau a gymerwyd ar sail ei chyhoeddiadau.